

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Mumbles Dental House

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ebrill 2024

Dyddiad cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Mumbles Dental House ar 24 Ebrill 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd un gan aelod o staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff a oedd yn gweithredu mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i arolwg AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ac roedd yr holl adborth a gawsom yn gadarnhaol.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y clinigwyr yn esbonio triniaethau mewn modd y gallent ei ddeall a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli gofal brys ac apwyntiadau a oedd yn cael eu canslo yn addas a gwelsom fod addasiadau rhesymol ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion hefyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth gofal iechyd sydd ar gael i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth gan y cleifion yn gadarnhaol
- Roedd y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus gan glinigwyr cwrtais.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol, ac roedd cynllun y practis yn addas i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Er bod ardaloedd y cleifion wedi cael eu cwblhau i safon uchel, gwelsom fod meysydd i'w gwella mewn perthynas ag ardaloedd storio eiddo personol y staff ac ardaloedd newid preifat. At hynny, roedd angen atgyweirio'r llawr yn un o'r deintyddfeydd. Roedd polisiau a gweithdrefnau addas ar waith o ran iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg diweddar ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch.

Roedd y mesurau atal a rheoli heintiau yn foddhaol ar y cyfan, ond roedd angen gwneud gwelliannau i gynnal glendid y droriau clinigol. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, a gwelwyd prosesau dihalogi cadarn. Roedd polisiau rheoli meddyginiaeth ar waith, ond roedd angen rhoi gweithdrefnau gwaredu gwell ar waith ar gyfer cyffuriau a reolir a meddyginiaeth y mae'r dyddiad ar gyfer ei defnyddio wedi mynd heibio. Roedd dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn cael eu rheoli'n effeithiol, gydag aelodau o'r staff yn dangos hyder wrth eu defnyddio.

Roedd triniaethau radiograffig yn cael eu rheoli'n ddiogel, ond gwelsom fod bylchau yng nghofnodion y cleifion yr oedd angen ei gwella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlen reolaidd ei rhoi ar waith i gynnal gwaith glanhau trylwyr ym mhob ardal glinigol
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn gynhwysfawr
- Roedd y prosesau ar gyfer dihalogi cyfarpar clinigol aml dro yn gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythurau rheoli clir ac amlwg ar waith a oedd yn helpu i redeg Mumbles Dental House yn effeithiol. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais â chleifion a gyda'i gilydd. Dywedodd rheolwr y practis a'r prif ddeintydd wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu rolau rheoli a'u bod yn cael y gefnogaeth gywir er mwyn rhedeg y practis. Gwelsom fod meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r gwiriadau a gynhelir ar eirdaon aelodau o staff sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers amser hir, ond roedd pob aelod newydd o staff yn cydymffurfio â'u gofynion proffesiynol.

Roedd y systemau ar waith ar gyfer casglu adborth ac ymateb iddo yn gynhwysfawr. Roedd gweithgareddau gwella ansawdd ar waith, ond gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r archwiliadau a gaiff eu cynnal gan y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo
- Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ei archwiliadau rheoli heintiau yn cyd-fynd â'r archwiliadau hynny sydd ar gael ar gyfer practisau deintyddol yng Nghymru.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus yn gweithio yn Mumbles Dental House

- Roedd hyfforddiant y staff yn cael ei reoli'n gadarn a chedwir cofnodion cynhwysfawr.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir gan Mumbles Dental House ar gyfer yr arolygiad ym mis Ebrill 2024. Cafwyd cyfanswm o saith ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd saith ymateb ar gyfer pob cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Dywedodd un claf:

“Roeddwn i'n nerfus iawn yn ystod fy apwyntiad cyntaf a chefais fy nghysuro gan y staff, gan wneud i mi deimlo'n gyfforddus ac esbonio'r triniaethau yn llawn er mwyn sicrhau fy mod yn deall yr hyn oedd yn digwydd ar bob cam o'r driniaeth.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod y ffioedd ar gyfer gofal deintyddol wedi'u harddangos yn amlwg ar ddesg y dderbynfa, ac roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) hefyd i'w gweld yn glir. Roedd oriau agor Mumbles Dental House a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld ar y drws ffrynt.

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion yn y toiledau mewn perthynas â chymorth i ddioddefwyr a'r Samariaid, ond ni welsom unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion am gynnal iechyd y geg da.

Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth gofal iechyd sydd ar gael i'r cleifion.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall drwy gydol eu hapwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal addas ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Roedd y drysau a'r bleinds yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau er mwyn amddiffyn preifatrwydd cleifion wrth gael triniaethau. Roedd yr ardal aros a'r dderbynfa ar wahân ac roedd hyn yn atal pobl eraill rhag clywed galwadau ffôn. Dywedodd y staff wrthym y byddai sgysiau cyfrinachol yn cael eu cynnal i ffwrdd o ddesg y dderbynfa a'r ardal aros os oedd angen. Roedd Codau Ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn y dderbynfa.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Nododd pob unigolyn a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Nododd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am risgiau a manteision yr opsiynau hynny.

Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth addas am yr hyn y dylent ei wneud os bydd haint neu mewn argyfwng a sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio dyfais a oedd yn gwaredu arogl clinigol o'r ardaloedd aros a'r deintyddfeydd er mwyn cefnogi cleifion nerfus sy'n mynychu i gael triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod systemau priodol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol. Roedd system trefnu apwyntiad ar-lein ar gael, ond roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn trefnu eu hapwyntiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Roedd achosion o oedi cyn apwyntiadau yn cael eu rheoli gan staff y dderbynfa, drwy ymgynghori â'r staff clinigol, ac roedd y cleifion yn cael gwybod amdanynt mewn modd amserol. Byddai cleifion yn cael cynnig yr opsiwn i drefnu apwyntiad ar ddyddiad gwahanol. Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau cyffredin, ond fel arfer bod cleifion yn aros pythefnos ar gyfartaledd.

Roedd apwyntiadau brys yn cael eu goruchwyllo gan staff y dderbynfa drwy broses frysbenno dros y ffôn ac mewn ymgynghoriad â chlinigydd. Roedd slotiau mewn

argyfwng yn cael eu cadw ar ddiwedd pob dydd ar gyfer cleifion, a gwelsom drefniadau priodol ar waith ar gyfer darparu gofal y tu allan i oriau i gleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym ei bod yn hawdd iddynt gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd poster yn y dderbynfa yn galluogi'r staff i nodi iaith y cleifion gan ddefnyddio cymhorthion gweledol. Defnyddir offer cyfathrebu ar-lein a llinell iaith lle y bo angen i gyfathrebu â chleifion. Dywedodd y staff wrthym am enghreifftiau lle darparodd y clinigwyr driniaethau drwy gyfrwng Arabeg, a oedd wedi'u teilwra at y gymuned roeddent yn ei gwasanaethu. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, gyda dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais.

Yn Saesneg roedd y ddogfennaeth ar gael yn bennaf. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith ac y gellid cynnig triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisiau ar waith i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg cleifion a staff, a oedd yn dangos ymrwymiad y practis i gefnogi eu hawliau. Roedd polisi dim goddefgarwch y practis yn amlinellu dull cadarn o fynd i'r afael ag unrhyw fath o aflonyddu neu wahaniaethu tuag at staff neu gleifion.

Gwelsom fod gan y practis ddull addas o helpu cleifion a staff yr oedd angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Clywsom enghreifftiau lle roedd y cleifion hynny â symudedd cyfyngedig yn cael cynnig apwyntiadau mewn deintyddfa ar y llawr gwaelod a bod ramp yn cael ei osod cyn eu hapwyntiad. Roedd cleifion trawsryweddol yn cael cymorth priodol i gynnal eu hawliau o ran cydraddoldeb. Roedd rhagenwau yn cael eu nodi ar system cofnodion y cleifion, ac roeddent yn cael y cynnig i ddewis y manylion a gaiff eu cofnodi gan y practis.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Nododd pob claf fod yr adeilad yn hygyrch hefyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol a bod maint a chynllun y practis yn addas i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd tri llawr i'r practis, gyda thri deintyddfa a dwy ardal aros o faint addas. Roedd ardaloedd aros y cleifion a'r ardaloedd cymunedol o safon uchel. Roedd y goleuadau, gwresogi, awyru ac arwyddion i gyd yn foddhaol.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio offer anfon negeseuon mewnol i gyfathrebu a chlywsom fod y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol. Roedd toiledau glân a oedd yn cynnwys cyfarpar addas i staff a chleifion, gan gynnwys toiled ar y llawr gwaelod ar gyfer y rhai â gofynion hygrychedd. Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio ystafell staff y gellir ei chloi i newid. Fodd bynnag, gwelwyd fod clo y drws wedi torri ac nad oedd loceri diogel yn yr ystafell staff er mwyn iddynt storio eu heiddo personol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o storio eiddo personol y staff yn ddiogel.

Roedd tri deintyddfa yn y practis, ac roedd un ohonynt wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar gyda'r ddwy ddeintyddfa arall yn cynnwys cypyrddau a chyfarpar hŷn ynddynt. Pan wnaethom siarad â'r staff, rhoddwyd gwybod i ni fod y practis yn diweddarau'r cyfarpar a'r cypyrddau yn y deintyddfeydd fesul tipyn. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw ddeunydd selio rhwng y llawr a'r bwrdd sgyrtin yn un o'r deintyddfeydd, a oedd yn golygu na ellir eu glanhau'n effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y gellir glanhau pob llawr yn effeithiol.

Roedd yr holl gyfarpar clinigol a welsom mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio fel y bo'n briodol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch, ac roedd polisi parhad busnes addas ar waith hefyd. Wrth edrych ar y cyfarpar a'r wybodaeth diogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd cyfarpar diogelwch tân newydd wedi cael eu gosod yn ddiweddar, ac felly nid oedd unrhyw gofnodion cynnal a chadw ar gael i ni eu harolygu. Fodd bynnag,

gwelsom y dystysgrif gosod a'r amserlen arolygu gan gcontractwr a gynhelir o fewn blwyddyn i osod y cyfarpar. Roedd arwyddion diogelwch tân a dim smygu i'w gweld yn amlwg.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd y practis yn lân ac yn drefnus. Fodd bynnag, roedd llwch i'w weld y tu mewn i ddroriau dwy ddeintyddfa ac roedd rhai eitemau wedi cwmpo o dan y dalwyr cyfarpar. Er bod yr eitemau clinigol a oedd yn y droriau hyn wedi'u selio mewn deunydd pecynnu ac yn cael eu storio mewn cynwysyddion cyfarpar, ni chawsom sicrwydd na fyddai'r eitemau clinigol a oedd yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r geg yn cael eu halogi drwy gael eu storio o dan yr amodau hyn. Nodwyd gennym hefyd nad oedd yr amserlenni glanhau a oedd ar waith yn dynodi bod angen glanhau'r droriau o dan y cynwysyddion cyfarpar yn drylwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod holl ardaloedd y practis yn cael eu cadw'n lân bob amser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlen reolaidd ei rhoi ar waith i gynnal gwaith glanhau trylwyr ym mhob ardal glinigol ac y caiff y broses lanhau drylwyr ei rhoi ar waith mewn modd amserol.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn gan y staff.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff ac roedd y cyfleusterau hylendid dwylo yn addas. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd y gweithdrefnau ar gyfer anafiadau offer miniog yn briodol.

Gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio i leihau'r risg o anaf.

Gwelsom brosesau dihalogi cadarn a oedd yn sicrhau bod cyfarpar aml dro ac argraffiadau yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n gywir. Roedd y prosesau'n cynnwys glanhau â llaw, baddon uwchsain a pheiriannau awtoclaf a oedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriannau awtoclaf ac roedd cofnodion y cylchoedd yn cael eu hadolygu'n wythnosol. Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol.

Caiff yr holl wastraff ei waredu drwy gcontract addas a chaiff ei storio mewn bin gwastraff priodol y tu allan. Fodd bynnag, roedd iard gefn y practis, lle roedd y

gwastraff yn cael ei storio, yn agored i'r cyhoedd ac nid oedd y bin storio gwastraff clinigol wedi cael ei osod yn ddiogel. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn fel risg bosibl i ddiogelwch.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob bin clinigol ei ddiogelu.

Roedd yr asesiad risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Fodd bynnag, gwelsom fod eitemau COSHH yn cael eu storio mewn ardal gynnes a chyfyngedig ochr yn ochr â chywasgydd y practis. Roedd hyn yn peri risg o dân ac amlygiad i gemegau i'r staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod yr eitemau hyn wedi cael eu storio yno ar gam ac nad oedd hyn yn digwydd fel arfer. Nid oedd clo ar y cwpwrdd ychwaith ac roedd wedi ei leoli yn uniongyrchol oddi ar yr ardal aros i gleifion. Gallai claf pediatrig fod wedi mynd i mewn i'r cwpwrdd pe byddai'n cael ei adael heb oruchwyliaeth. Roedd y materion hyn oll yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion ac aeth AGIC ati i'w datrys ar ddiwrnod yr arolygiad, a cheir manylion yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff bob amser yn dilyn gweithdrefnau COSHH y practis.

Yn yr un cwpwrdd, gwelsom fod mopiau a ddefnyddir i lanhau ardaloedd clinigol yn cael eu gadael yn eu bwcedi i sychu yno. Ni fyddai hyn yn sicrhau bod y mopiau yn sychu'n briodol a gallai deunyddiau heintus ffynnu o bosibl.

Dylai'r rheolwr cofrestredig adael mopiau i sychu'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Nodwyd gennym fod polisi addas ar gyfer cael, trin a defnyddio meddyginiaethau a'u cadw'n ddiogel. Nid oedd y staff yn rhoi meddyginiaethau fel mater o drefn, heblaw am y rhai a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camdefnyddio cyffuriau. Roedd y meddyginiaethau hyn a waredwyd yn cael eu cofnodi ar restr wirio, ond dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynneb wrth waredu cyffuriau a reolir. Byddai cael derbynebau adeg gwaredu yn amddiffyn y staff ac yn atal cyffuriau a reolir rhag cael eu colli, eu cam-gadw neu eu camdefnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.

Wrth arolygu'r trefniadau storio meddyginiaethau yn y droriau mewn dwy ddeintyddfa ac yn ystafell storio'r practis, daethom o hyd i ffiolau o Xylocaine 2%,

sef anesthetig lleol, yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio. Roedd y ffiolau hyn yn cael eu storio yn groes i bolisi'r practis ac roeddent yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion. Gwnaethom ofyn i'r staff symud pob meddyginiaeth yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio o'r ardaloedd clinigol a'r storfa. Gwnaethom hefyd ofyn i'r staff gynnal gwiriadau ar bob meddyginiaeth a chyfarpar arall ar ddiwrnod ein harolygiad. Ymdriniwyd â'r materion hyn yn ystod yr arolygiad ac maent wedi'u rhestru yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r gwiriadau a gynhelir ar feddyginiaethau a chyfarpar yn unol â'i bolisi rheoli meddyginiaethau.

Roedd manylion y meddyginiaethau a roddir yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y cleifion, ac roedd yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym yn cefnogi hyn.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau addas ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, roedd yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys. Gwelsom hefyd fod y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel fel sy'n briodol.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion. Roedd y polisi a'r gweithdrefnau yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, yn nodi arweinydd diogelu dynodedig ac yn ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar eu dyfeisiau symudol er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth foddhaol o weithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn addas at y diben, mewn cyflwr da a'i fod yn ddiogel. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol amlbro mewn cyflwr da, yn cael ei drin yn ddiogel a'i ddiheintio'n briodol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn addas. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos fod risgiau a manteision ymbelydredd yn cael eu hesbonio i gleifion, a lle y bo'n berthnasol i'w cysurwyr, a bod unrhyw gysylltiadau yn cael eu cofnodi'n briodol. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol a chan gydymffurfio â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o wyth claf a oedd yn cael eu storio ar system rheoli cofnodion addas ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu prosesu yn unol â'r polisi rheoli cofnodion priodol.

Roedd cofnodion y cleifion yn gyfredol ac yn ddarlun cywir o'r gofal a ddarperir i'r cleifion ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella ansawdd nodiadau'r cleifion yn y meysydd canlynol:

- Nid oedd asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod camau atal 'Delivering Better Oral Health' wedi'u rhoi ar waith
- Nid oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r wyth cofnod.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.

Gwnaethom adolygu archwiliad o un o'r cofnodion cleifion a oedd wedi'i gwblhau'n ddiweddar ac a oedd yn mynd i'r afael â'r wybodaeth goll ac yn cynnwys y gwelliannau y bydd yr ymarferwyr yn eu gwneud i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig barhau i wella cofnodion y cleifion er mwyn sicrhau y gellir cynnal asesiadau risg priodol o iechyd y geg ac y rhoddir camau atal 'Delivering Better Oral Health' ar waith yn llawn.

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw apwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn cael unrhyw driniaeth. Roedd y dystiolaeth a welsom yng nghofnodion y cleifion yn ategu hyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis a oedd yn cynnwys pob aelod o'r staff, gyda nodiadau'n cael eu cymryd ar gyfer y staff nad oeddent yn bresennol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr, a dywedodd y deintydd arwain a pherchennog y practis ei fod wedi cael y cymorth a'r hyfforddiant cywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd wedi ymgymryd ag unrhyw weithgarwch datblygu tîm, fel y rhai hynny sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm cydnabyddedig, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.

Roedd y polisiâu a'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dyddiadau adolygu clir, ac roeddent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd newidiadau i bolisiâu yn cael eu cyfleu i'r staff drwy gyfarfodydd neu yn ysgrifenedig.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod niferoedd priodol o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas yn gweithio yn y practis bob amser. Roedd system ddigidol ar waith i fonitro cofrestriad pob clinigydd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd trefniadau cadarn ar waith ar gyfer sefydlu ac arfarnu'r staff, a oedd yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis mewn ymgynghoriad â'r prif ddeintydd. Roedd arfarniadau cyfredol a boddhaol ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff ar ffeil.

Gwnaethom nodi fod polisi chwythu'r chwiban priodol ar waith a dywedodd y staff wrthym y byddent yn cael eu trin yn deg wrth godi unrhyw bryderon.

Gwnaethom edrych ar 6 o'r 11 o gofnodion staff a oedd ar gael, a gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant. Gwelsom fod yr holl dystysgrifau hyfforddiant ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff,

ac eithrio tri aelod newydd a oedd wedi dechrau eu swydd yn ystod y mis diwethaf. Roedd yr aelodau newydd hyn wedi trefnu cyrsiau hyfforddiant er mwyn ymgymryd â nhw o fewn y tri mis nesaf. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael amser i gwblhau hyfforddiant a gweithgareddau datblygu, ac esboniodd rheolwr y practis fod amser yn cael ei neilltuo i'r staff gwblhau hyfforddiant yn rheolaidd.

Gwelsom gydymffurfiaeth dda â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r gwiriadau cyn cyflogi yn y chwe chofnod staff a welsom. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff er mwyn gwirio manylion staff cyn iddynt gael eu cyflogi. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd ffeiliau staff dau gyflogai a oedd wedi gweithio yn y practis am gyfnod hirach ac a gafodd eu recriwtio cyn i'r tîm rheoli presennol gymryd yr awenau yn cynnwys gwiriadau geirdaon ffurfiol. Dywedwyd wrthym fod y ddau gyflogai a oedd wedi gweithio yn y practis am gyfnod hirach wedi gweithio yno am gyfnod estynedig a bod gwiriadau anffurfiol ar eu cymeriad wedi'u cynnal pan gafodd y practis ei brynu yn ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau geirdaon addas yn cael eu cynnal neu roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd systemau priodol ar waith ar gyfer cofnodi adborth gan gleifion ac ymateb iddo. Gofynnwyd am adborth dros e-bost, mewn adolygiadau ar-lein a thrwy system negeseuon testun a oedd yn cael ei threialu. Roedd adborth ar lafar hefyd yn cael ei nodi wrth y ddesg flaen a rhoddir gwybod i reolwr y practis amdano. Roedd pob adborth gan y cleifion yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd sgrym y practis a gynhelir yn ddyddiol ac yn fwy ffurfiol mewn cyfarfodydd tîm bob mis. Roedd adborth yn cael ei gyhoeddi ar-lein, gan gynnwys sylwadau gan gleifion, a byddai staff y practis yn ymateb i adborth lle roedd angen gwneud hynny wyneb yn wyneb yn y practis neu ar-lein.

Roedd y weithdrefn gwyno yn gwbl gyson â gweithdrefn Gweithio i Wella, a gwelsom dystiolaeth fod cwynion gan gleifion yn cael ymateb amserol. Roedd y weithdrefn wedi'i harddangos ac yn cynnwys pwynt cyswllt penodol i gleifion. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi yn y dderbynfa ac yn cael eu rhannu â rheolwr y practis. Roedd y pwyntiau cyswllt wedi'u cynnwys yn y weithdrefn gwyno er mwyn i'r cleifion uwchgyfeirio eu pryderon, gan gynnwys yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Llais ac AGIC. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu, ond cawsom sicrwydd drwy'r broses a oedd ar waith.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y practis bolisi gwella ansawdd ar waith. Gwelsom fod archwiliadau clinigol ar gyfer cofnodion cleifion a radiograffau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd archwiliadau gwella ansawdd ar gyfer dihalogi a rheoli heintiau yn cael eu cynnal ond byddai sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r fframweithiau presennol sydd ar gael i bractisau yng Nghymru yn fuddiol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ei archwiliadau rheoli heintiau yn cyd-fynd â'r rhai hynny sydd ar gael i bractisau deintyddol yng Nghymru.

Nifer bach o gleifion y practis oedd yn smygu, felly nid oedd angen cynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu ar fyrder. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cynnal archwiliad blynyddol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu bob blwyddyn.

Roedd y prif ddeintydd yn ymgymryd ag adolygiad cymheiriaid yn rheolaidd drwy Academia. Mae deintydd cyswllt newydd wedi ymuno â'r practis yn ystod yr wythnosau diwethaf a dywedodd y staff wrthym y byddai'r ymarferwyr yn ymgymryd ag adolygiadau cymheiriaid unwaith y bydd yr aelod cyswllt newydd wedi dechrau yn ei swydd yn llawn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Gwelsom fod eitemau COSHH yn cael eu storio mewn ardal gynnes a chyfyngedig ochr yn ochr â chywasgydd y practis. Nid oedd clo ar y cwpwrdd hwn ychwaith ac roedd wedi ei leoli yn union oddi ar yr ardal aros i gleifion.</p>	<p>Roedd hyn yn peri risg o dân ac amlygiad i gemegau i'r staff a'r cleifion.</p> <p>Gallai claf pediatrig fod wedi mynd i mewn i'r cwpwrdd pe byddai'n cael ei adael heb oruchwyliaeth.</p>	<p>Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn ar unwaith.</p>	<p>Cafodd yr eitemau eu symud o'r cwpwrdd a'u storio'n ddiogel mewn cwpwrdd mewn ardal addas arall yn y practis.</p>
<p>Wrth arolygu'r trefniadau storio meddyginiaethau yn y droriau mewn dwy ddeintyddfa ac yn ystafell storio'r practis, daethom o hyd i ffiolau o Xylocaine 2%, sef anesthetig lleol, yr oedd y dyddiad</p>	<p>Gallai anesthetig y mae'r dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio gael ei ddefnyddio yn ystod triniaeth y cleifion.</p>	<p>Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn ar unwaith.</p>	<p>Gwnaethom ofyn i'r staff symud pob meddyginiaeth yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio o'r ardaloedd clinigol a'r storfa. Gwnaethom hefyd ofyn i'r staff gynnal gwiriadau ar bob meddyginiaeth a chyfarpar arall ar ddiwrnod ein harolygiad.</p>

<p>defnyddio arno wedi mynd heibio. Roedd y ffiolau hyn yn cael eu storio yn groes i bolisi'r practis ac roeddent yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion.</p>			
--	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Mumbles Dental House

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Mumbles Dental House

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Ni welsom unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion am gynnal iechyd y geg da.	Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth gofal iechyd sydd ar gael i'r cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (9)	Bydd posteri a thaflenni gwybodaeth gofal iechyd yn cael eu gosod yn y ddwy ardal aros.	Duncan Howells	Gorffennaf 2024
2.	Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio ystafell staff y gellir ei chloi i newid. Fodd bynnag, gwelwyd fod clo y drws wedi torri ac nad oedd loceri diogel yn yr ystafell staff er	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o storio eiddo personol y staff yn ddiogel.	Adran 22 (3) (b)	Defnyddir lleoliad arall fel yr ystafell staff bellach a cheir clo ar y drws - mae gan staff flychau i gadw eu heiddo personol hefyd	Duncan Howells	Wedi'i roi ar waith

	mwyn iddynt storio eu heiddo personol.					
3.	Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw ddeunydd selio rhwng y llawr a'r bwrdd sgyrtin yn un o'r deintyddfeydd, a oedd yn golygu na ellir eu glanhau'n effeithiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y gellir glanhau pob llawr yn effeithiol.	Adran 13 (6) Adran 22 (2) (b)	Trefnu bod crefftwr yn dod i osod deunydd selio rhwng y llawr a'r byrddau sgyrtin	Duncan	Gorffennaf 2024
4.	Roedd llwch i'w weld y tu mewn i ddroriau dwy ddeintyddfa ac roedd rhai eitemau wedi cwmpo o dan y dalwyr cyfarpar. Er bod yr eitemau clinigol a oedd yn cael eu storio yn y droriau hyn wedi'u selio mewn deunydd pecynnu ac yn cael eu storio mewn cynwysyddion cyfarpar, ni chawsom sicrwydd na fyddai'r eitemau clinigol a	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob rhan o'r practis ei chadw'n lân bob amser.	Adran 13 (6)	Rhoi prosesau ar waith i lanhau'r holl ddroriau yn drylwyr bob pythefnos - pob aelod o'r staff i sicrhau nad oes unrhyw offer nac eitemau yn cwmpo y tu ôl i gynwysyddion cyfarpar.	Duncan Howells	Wedi'i roi ar waith

	<p>oedd yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r geg yn cael eu halogi drwy gael eu storio o dan yr amodau hyn.</p> <p>Nodwyd gennym nad oedd yr amserlenni glanhau a oedd ar waith yn dynodi bod angen glanhau'r droriau o dan y cynwysyddion cyfarpar yn drylwyr.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlen reolaidd ei rhoi ar waith i gynnal gwaith glanhau trylwyr ym mhob ardal glinigol ac y caiff y broses lanhau drylwyr ei rhoi ar waith mewn modd amserol.</p>	<p>Adran 8 (1) (m)</p> <p>Adran 13 (6)</p>			
5.	<p>Roedd iard gefn y practis, lle roedd y gwastraff yn cael ei storio, yn agored i'r cyhoedd ac nid oedd y bin storio gwastraff clinigol wedi cael ei osod yn ddiogel.</p> <p>Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn fel risg bosibl i ddiogelwch.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob bin clinigol ei ddiogelu.</p>	<p>Adran 22 (2)</p>	<p>Bydd y bin gwastraff clinigol yn cael ei osod yn ddiogel i'r ffens gyda chadwyn at ddibenion diogelwch</p>	<p>Duncan Howells</p>	<p>Awst 2024</p>

6. Gwelsom fod eitemau COSHH yn cael eu storio mewn ardal gynnes a chyfyngedig ochr yn ochr â chywasgydd y practis. Roedd hyn yn peri risg o dân ac amlygiad i gemegau i'r staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod yr eitemau hyn wedi cael eu storio yno ar gam ac nad oedd hyn yn digwydd fel arfer. Nid oedd clo ar y cwpwrdd ychwaith ac roedd wedi ei leoli yn uniongyrchol oddi ar yr ardal aros i gleifion. Gallai claf pediatrig fod wedi mynd i mewn i'r cwpwrdd pe byddai'n cael ei adael heb oruchwyliaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff bob amser yn dilyn gweithdrefnau COSHH y practis.

Adran 22 (5) (b)

Cafodd yr holl eitemau COSHH eu symud o'r cwpwrdd hen ar ddiwrnod yr arolygiad, ac mae'r staff wedi cael gwybod am yr angen i gadw eitemau COSHH mewn lleoliad diogel.

Duncan Howells

Wedi'i roi ar waith

7.	Gwelsom fod mopiau a ddefnyddir i lanhau ardaloedd clinigol yn cael eu gadael yn eu bwcedi i sychu. Ni fyddai hyn yn sicrhau bod y mopiau yn sychu'n briodol a gallai deunyddiau heintus ffynnu o bosibl.	Dylai'r rheolwr cofrestredig adael mopiau i sychu'n briodol	Adran 13 (6)	Rydym wedi archebu stand ar gyfer y mop a bydd yn cael ei osod unwaith y bydd wedi cyrraedd	Duncan Howells	Mehefin 2024
8.	Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camdefnyddio cyffuriau. Roedd y meddyginiaethau hyn a waredwyd yn cael	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.	Adran 13 (4)	Sicrhau ein bod yn cael derbynebaw am waredu meddyginiaethau brys y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio a'u bod yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo.	Duncan Howells	Pan fo dyddiad defnyddio unrhyw feddyginiaethau brys eraill wedi mynd heibio

	<p>eu cofnodi ar restr wirio, ond dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynneb wrth waredu cyffuriau a reolir. Byddai cael derbynebau adeg gwaredu yn amddiffyn y staff ac yn atal cyffuriau a reolir rhag cael eu colli, eu camgadw neu eu camdefnyddio.</p>					
9.	<p>Wrth arolygu'r trefniadau storio meddyginiaethau yn y droriau mewn dwy ddeintyddfa ac yn ystafell storio'r practis, daethom o hyd i ffiolau o Xylocaine 2%, sef anesthetig lleol, yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio. Roedd y</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r gwiriadau a gynhelir ar feddyginiaethau a chyfarpar yn unol â'i bolisi rheoli meddyginiaethau.</p>	<p>Adran 13 (4)</p>	<p>Bydd y dyddiadau gorffen yn cael eu monitro bob mis ac yn ystod y gwiriad hwn, bydd yr holl feddyginiaethau ac anesthetig lleol yn cael eu gwirio a'u gwaredu os bydd angen</p>	<p>Duncan Howells</p>	<p>Wedi'i roi ar waith yn y rhestrau gwirio ac mae'r staff wedi cael gwybod</p>

	<p>ffiolau hyn yn cael eu storio yn groes i bolisi'r practis ac roeddent yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion. Gwnaethom ofyn i'r staff symud pob meddyginiaeth yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio o'r ardaloedd clingol a'r storfa. Gwnaethom hefyd ofyn i'r staff gynnal gwiriadau ar bob meddyginiaeth a chyfarpar arall ar ddiwrnod ein harolygiad.</p>					
10.	<p>Gwnaethom nodi bod angen gwella ansawdd nodiadau'r cleifion yn y meysydd canlynol:</p> <p>Nid oedd asesiadau risg yn seiliedig ar</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig barhau i wella cofnodion y cleifion er mwyn sicrhau y gellir cynnal asesiadau risg priodol o iechyd y geg ac y rhoddir camau atal</p>	Adran 20 (1) (a)	<p>Yn ystod archwiliad a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024, gwnaethom asesu nodiadau clinigol y cleifion a nodwyd gennym nad oedd yr</p>	<p>Duncan Howells</p>	<p>Wedi'i roi ar waith</p>

	<p>geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg wedi'u cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion</p> <p>Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod camau atal 'Delivering Better Oral Health' wedi'u rhoi ar waith.</p>	'Delivering Better Oral Health' ar waith yn llawn.		<p>asesiadau risg ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg wedi'u cofnodi. Rhoddwyd y rhain ar waith ar unwaith ym mis Chwefror.</p>		
11.	<p>Nid oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r wyth cofnod.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.</p>	Adran 13 (1) (a)	<p>Fel rhan o'r nodiadau clinigol, gofynnir am ddewis iaith y cleifion a chaiff ei gofnodi'n unol â hynny.</p>	Duncan Howells	Wedi'i roi ar waith
12.	<p>Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd wedi ymgymryd ag unrhyw weithgarwch datblygu tîm, fel y rhai hynny</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm cydnabyddedig, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.</p>		<p>Matrics Aeddfedrwydd Deintyddol - bydd gweithgareddau datblygu yn cael eu cwblhau gan y tîm.</p>	Duncan Howells	Tachwedd 2024

	sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).					
13.	Gwelsom nad oedd ffeiliau staff dau gyflogai a oedd wedi gweithio yn y practis am gyfnod hirach ac a gafodd eu recriwtio cyn i'r tîm rheoli presennol gymryd yr awennau yn cynnwys gwiriadau geirdaon ffurfiol. Dywedwyd wrthym fod y ddau gyflogai a oedd wedi gweithio yn y practis am gyfnod hirach wedi gweithio yno am gyfnod estynedig a bod gwiriadau anffurfiol ar eu cymeriad wedi'u cynnal pan gafodd y practis ei brynu yn ddiweddar.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau geirdaon addas yn cael eu cynnal neu roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.	Adran 18	Mae'r ffurflenni lliniaru risgiau wedi'u cwblhau ac maent ar gael ochr yn ochr â gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Duncan Howells	Wedi'i roi ar waith

14.	Roedd archwiliadau gwella ansawdd ar gyfer dihalogi a rheoli heintiau yn cael eu cynnal ond byddai sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r fframweithiau presennol sydd ar gael i bractisau yng Nghymru yn fuddiol.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ei archwiliadau rheoli heintiau yn cyd-fynd â'r archwiliadau hynny sydd ar gael ar gyfer practisau deintyddol yng Nghymru.	Adran 16 (1)	Nid ydym wedi gallu cael gafael ar archwiliad WHTM 01-05, ac rydym yn aros am ymateb gan AaGIC er mwyn gweld a yw practisau preifat yn gallu cael gafael arno.	Duncan Howells	Yn aros am ymateb - os bydd yn bosibl i ni gael gafael ar yr archwiliad, byddwn yn ei gwblhau ym mis Awst 2024
15.	Nifer bach o gleifion y practis oedd yn smygu, felly nid oedd angen cynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu ar fyrder. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cynnal archwiliad blynyddol.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu bob blwyddyn.	Adran 16 (1)	Archwiliad rhoi'r gorau i smygu i'w gwblhau'n flynyddol.	Duncan Howells	Medi 2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Duncan Howells

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 19/06/2024